Tymor penigamp

Unwaith eto'r tymor hwn mae Ysgol Dyffryn Conwy wedi mwynhau llwyddiannau mewn amrywiaeth o feysydd allgyrsiol yn ogystal â'i llwyddiannau academaidd.

Roedd Eisteddfod yr ysgol yn llwyddiant ysgubol a chafwyd cystadlu brwd gan y pedwar tŷ. Bu'r disgyblion yn weithgar iawn o flaen llaw yn paratoi at y cystadlaethau gwaith cartref a llwyfan, bu'r capteiniaid tŷ o flynyddoedd 12 ac 13 yn hynod o brysur yn paratoi unigolion a chorau i safon uchel iawn.

Yn dilyn y rowndiau rhagbrofol, bu'r staff a'r disgyblion yn mwynhau diwrnod llawn o gystadlu. Gwelwyd amrywiaeth o gystadlaethau dawns, llefaru, canu a doniol. Roedd y cystadleuwyr i gyd yn llawn asbri a chanmolodd y tri beirniad yr holl dalent a welwyd.

Cafwyd seremonïau mawreddog i anrhydeddu prif enillwyr y cystadlaethau gwaith cartref. Cyflwynwyd Cadair yr Eisteddfod i Lowri Llwyd Roberts am ei cherdd o dan y teitl 'storm', cafodd y fyfyrwraig Blwyddyn 12 hefyd pen draig wedi ei gerfio'n gywrain, wedi ei ddylunio gan Jake Jones a'i gerfio gan Bennaeth yr Adran Dechnoleg. Bydd y tlws hwn yn bartner i'r gadair arall a enillodd Lowri'r llynedd! Cafodd y Goron ei wobrwyo am y darn gorau o ysgrifennu creadigol yn y Saesneg o dan y teitl 'destiny'. Enillydd y tlws hwn oedd Amlyn Layton o Flwyddyn 12.

Cyflwynwyd y Fedal Ddrama i Mared Jones o Flwyddyn 13 a'r Fedal Gyfansoddi i Non Owen o Flwyddyn 13. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Hoffai'r ysgol ddiolch i holl noddwyr yr amrywiol gwpanau a thlysau. Cyflwynir cwpan yr eisteddfod i'r tŷ a enillodd y marciau uchaf a Geirionnydd aeth a hi am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r tai eraill eisoes yn cynllunio i ennill y blaen arnynt y flwyddyn nesaf!

Disgleiriodd y disgyblion ar y maes chwaraeon hefyd, llwyddodd y tri thîm rygbi i ennill lle yn rownd derfynol Eryri a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Daeth y tîm dan 13 yn ail i Ysgol Glan y Môr. Daeth y tîm dan 15 yn ail hefyd ar ôl gêm gyffrous iawn yn erbyn Ysgol Brynrefail, roedd ein tîm ni ar y blaen trwy'r gêm nes i'r gwrthwynebwyr fynd â hi gyda chais yn yr eiliadau olaf. Fodd bynnag, daeth y tîm dan 18 i'r brig ac ennill y gwpan mewn buddugoliaeth 22-5 yn erbyn Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae cael tri grŵp oedran yn y rownd derfynol yn dipyn o gamp. Llongyfarchiadau i holl aelodau'r timau ac i'r Adran Addysg Gorfforol ardderchog a diolch arbennig i Glwb Rygbi Nant Conwy a'u hyfforddwr am eu cefnogaeth. Partneriaeth go iawn rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Twrn yr athletwyr oedd hi drannoeth i gystadlu ym Mhencampwriaethau Hŷn Conwy, llwyddodd 16 o athletwyr ennill lle mewn 20 cystadleuaeth yn y rownd nesaf yn Nhreborth. Yn y cystadlaethau tîm, yr ysgol enillodd y pwyntiau uchaf yn y grŵp bechgyn canol (Blynyddoedd 10 ac 11) a daeth y merched yn ail agos yn y ddau grŵp oedran.

Mae ein rhaglen ddawnus a thalentog yn rhoi cyfle i'n hathletwyr elitaidd i gystadlu mewn pencampwriaethau rhanbarthol a chenedlaethol ac mae cystadlaethau wythnosol ym Mirmingham a Chaer yn beth cyffredin.